**COFNODION CRYNO CYFARFOD PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL – PREIFAT**

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

16:00 – 17:00

11 Mai 2023

MS Teams

| Yn Bresennol (Aelodau) | Blaenlythrennau | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Rowan Gardner | RG | Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| David Selway | DS | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Alistair Klaas Neill | AKN | Aelod Annibynnol (arsylwi) | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |

| Yn bresennol | Blaenlythrennau | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Nathan Couch | NC | Arweinydd Archwilio Perfformiad (Iechyd) | Archwilio Cymru |
| Chris Darling | CD | Ysgrifennydd y Bwrdd | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Jamie Graham | JG | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Seiberddiogelwch | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Rhidian Hurle | RH | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Darren Lloyd | DL | Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sam Lloyd | SL | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Alison Maguire | AM | Arweinydd y Rhaglen | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Carys Richards | CR | Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth) | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Laura Tolley | LT | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Andrew Warburton | AW | Pennaeth Rhaglenni Gwybodaeth a Chofnodion Iechyd | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |

| Ymddiheuriadau | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|
| Marilyn Bryan Jones | Aelod Annibynnol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Ifan Evans | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Carwyn Lloyd-Jones | Cyfarwyddwr TGCh | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Rachael Powell | Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| SHA | Awdurdod Iechyd Arbennig | DG&S | Llywodraethu a Diogelwch Digidol |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |

| Rhif yr Eitem | Eitem | Canlyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| RHAN 1 — MATERION RHAGARWEINIOL | | | |
| 1.1 | Croeso a Chyflwyniadau | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Croesawodd Rowan Gardner, Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol (RG) bawb i'r sesiwn breifat, gan gynnwys Nathan Couch, Arweinydd Archwilio Perfformiad (Iechyd) (NC) o Archwilio Cymru a oedd yn bresennol i gyflwyno eitem 2.5 Adroddiad Seibergadernid.<br><br>Nodwyd bod Alistair Klaas Neill, Aelod Annibynnol (AKN), yn bresennol i arsylwi yn absenoldeb Marilyn Bryan Jones. | | |
| 1.2 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br>- Marilyn Bryan Jones, Aelod Annibynnol<br>- Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth<br>- Carwyn Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr TGCh<br>- Rachael Powell, Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.3 | **Datganiadau o Fuddiannau**<br>Nodwyd bod RG yn gyd-sylfaenydd Precision Life, sy'n ymdrin â gwybodaeth am gleifion at ddibenion eilaidd, megis ymchwil, a chytunwyd, os ar unrhyw adeg pan nad yw'n briodol i RG fod yn Gadeirydd, y byddai David Selway, Aelod Annibynnol, Is-Gadeirydd (DS), yn cymryd yr awenau i reoli unrhyw wrthdaro posibl. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| | RHAN 2 - PRIF AGENDA | | |
| 2.1 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**<br>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor ym mis Chwefror 2023 fel cofnod cywir.<br>**Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:**<br>GYMERADWYO cofnodion y cyfarfod diwethaf. | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |
| 2.2 | **Cofnod Gweithredu**<br>Nid oedd unrhyw gamau gweithredu agored, ac nid oedd angen trafodaeth ar y ddau a oedd wedi dod i ben ers y cyfarfod diwethaf ym mis Chwefror.<br>**Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:**<br>NODI'r Cofnod Gweithredu. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.3 | **Adroddiad Polisi**<br><br>Cyflwynodd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (CD), yr Adroddiad Polisi gan ofyn i'r pwyllgor a oeddent yn fodlon cymeradwyo'r polisïau a ganlyn: | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | - Egwyddorion a Safonau Rheoli Mynediad Breintiedig (PAM)<br>Roedd y polisi newydd yn amlinellu rheolaeth gweithio hanfodol o bell yn PAM, gan gynnwys sut roedd cyfrifon yn cael eu rheoli.<br>- Gwrthfaleiswedd<br>Nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'w nodi yn y polisi gwrthfaleiswedd presennol yr oedd disgwyl ei adolygu.<br>**Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:**<br>GYMERADWYO'R Adroddiad Polisi, Egwyddorion a Safonau Polisi Rheoli Mynediad Breintiedig, a'r Polisi Gwrthfaleiswedd. | | |
| 2.4 | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol**<br>Nododd CD fod 31 o risgiau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar hyn o bryd, yr oedd 20 ohonynt i'w hystyried gan y Pwyllgor hwn, ac mae'r risgiau preifat yn destun trafodaeth.<br>**Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:**<br>DRAFOD y Gofrestr Risg Gorfforaethol | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.5 | **Adroddiad ar Seibergadernid - Archwilio Cymru**<br>Dan arweiniad Nathan Couch (NC) o Archwilio Cymru, a nododd nad oedd yr un o'r Archwilwyr TG a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r adroddiad cychwynnol ar gael i roi'r cyflwyniad oherwydd streic, ond aeth drwy gyflwyniad cynhwysfawr o'r adroddiad ei hun.<br>**Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:**<br>NODI'R adroddiad Seibergadernid - Archwilio Cymru | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.6 | **Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch**<br>Cyflwynodd Jamie Graham, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Seiber (JG) yr Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch gan dynnu sylw at y gwaith a gwblhawyd dros y cyfnod a chadarnhaodd fod yr Achos Busnes Llawn wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br>**Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:**<br>DRAFOD yr Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch er SICRWYDD | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 3 - MATERION I GLOI | | | |
| 3.1 | **Unrhyw Faterion Brys Eraill**<br>Nid oedd unrhyw faterion arall. | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.2 | **Eitemau ar gyfer Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd i'r Bwrdd**<br>Nodwyd drwy gydol y cyfarfod yr eitemau i'w cynnwys, os yw'n briodol ar gyfer y fforwm cyhoeddus, yn Adroddiad Uchafbwyntiau'r Cadeirydd ar gyfer Bwrdd SHA ym mis Mai. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 3.3 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**<br>Cadarnhawyd dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ar 3 Awst 2023 am 1.00pm. | Nodwyd | Dim i'w nodi |